# Defnyddio'r rhyngrwyd

Mae'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol wedi cyhoeddi gwybodaeth ddiddorol iawn am sut roedd pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd yn 2011.

**Rhyngweithio cymdeithasol** (cyfathrebu ar Facebook neu Twitter)

- Dywedodd 91% o bobl 16-24 oed eu bod yn defnyddio gwefannau fel Facebook a Twitter
- Nid pobl ifanc yn unig oedd yn defnyddio'r gwefannau hyn. Roedd 18% o bobl dros 65 oed yn eu defnyddio hefyd.
- Roedd mwy o ferched (60%) yn defnyddio'r gwefannau hyn na dynion (54%).

…………………..

- Daeth gwerthu nwyddau dros y we yn fwy poblogaidd yn 2011 - yn enwedig ar wefannau fel e-bay.
- Gwerthodd dros 12 miliwn o bobl, sef 31% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd, nwyddau neu wasanaethau ar-lein. Yn 2010, y ffigur oedd 7.9 miliwn, sef 21% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd.

**Prynu dros y we**

- Yn 2011, prynodd 32 miliwn o oedolion, sef 66% o oedolion, nwyddau neu wasanaethau dros y we. Roedd hyn yn gynnydd o 62% o oedolion ers 2010.
- Dillad a nwyddau chwaraeon oedd y pethau mwyaf poblogaidd a brynwyd yn 2011, gyda 46% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn prynu'r eitemau hyn.
- Prynodd 50% o'r merched sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ddillad neu nwyddau chwaraeon yn 2011.
- Prynodd 43% o'r dynion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ddillad neu nwyddau a phrynodd 40% o'r dynion ffilmiau neu gerddoriaeth.
- Yn y grŵp 65 oed neu hŷn, nid dillad na nwyddau chwaraeon oedd y pethau mwyaf poblogaidd. Nododd 29% ohonyn nhw eu bod yn defnyddio'r we i brynu tocynnau teithio, i fwcio llety ar gyfer gwyliau neu i logi car.

**Siarad**

- Yn 2011, gwelwyd bod 21% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn ei ddefnyddio i ffonio neu i wneud galwadau fideo.
- Roedd 17% o bobl dros 65 oed yn gwneud galwadau ffôn neu fideo a 22% o bobl dan 24 oed.

© Hawlfraint y Goron 2011

Yn seiliedig ar *Statistical Bulletin: Internet Access - Households and Individuals, 2011*